

Simon Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

15 Mai 2018

Annwyl Simon

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 17 Ebrill, a drafodwyd yn ein cyfarfod ar 3 Mai.

Amserlen

Fe wnaethom nodi'ch gohebiaeth i'r Pwyllgor Busnes yn gofyn am estyniad i'r terfyn amser ar gyfer Cyfnod 2.

Cynnwys Swyddfa Archwilio Cymru yn Atodlen 3

Cafwyd tystiolaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, lle nododd ei bryderon ynghylch cynnwys Swyddfa Archwilio Cymru yn Atodlen 3 o'r Bil. Ategwyd y farn hon gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei dystiolaeth ysgrifenedig. Ar ôl adolygu'r dystiolaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Ombwdsman, rydym yn ategu eu galwadau am gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i dynnu Swyddfa Archwilio Cymru o Atodlen 3.

Yn gywir



John Griffiths AC
Cadeirydd



Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English

